# ADOLYGIAD O FFINIAU ETHOLAETHAU SENEDDOL YN SIROEDD CADWEDIG CLWYD A GWYNEDD

# ADRODDIAD AR YR YMCHWILIAD LLEOL A GYNHALIWYD AR 6 GORFFENNAF 2004 YN NEUADD POWIS, PRIFYSGOL CYMRU BANGOR AC AR 8 GORFFENNAF 2004 YN SIAMBR Y CYNGOR, CYNGOR SIR DDINBYCH, RHUTHUN

**Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

**PUMED ADRODDIAD CYFFREDINOL O ETHOLAETHAU SENEDDOL.**

# ADRODDIAD YR YMCHWILIAD LLEOL MEWN PERTHYNAS Â SIROEDD CADWEDIG GWYNEDD A CHLWYD.

## ETHOLAETHAU SENEDDOL.

### Cefndir.

1. Roedd gan sir gadwedig Gwynedd, yn ôl ei chyfansoddiad adeg y Pedwerydd Adroddiad Cyffredinol o Etholaethau Seneddol, bedair etholaeth. Roedd ganddynt gyfanswm o 185,628 o etholwyr yn 2003 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Ynys Môn CC | 49,831 |
| Conwy CC | 55,009 |
| Caernarfon CC | 47,065 |
| Meirionnydd Nant Conwy CC | 33,723 |

Mae nifer etholwyr 2003 o'r etholaethau presennol hyn yn amrywio o 27.3% islaw'r cyfartaledd sirol (Meirionnydd Nant Conwy CC) i 18.5% uwchlaw'r cyfartaledd sirol (Conwy CC). Y gwahaniaeth yw 21,286.

2. Roedd gan sir gadwedig Clwyd, yn ôl ei chyfansoddiad adeg y Pedwerydd Adroddiad Cyffredinol o Etholaethau Seneddol, chwe etholaeth. Roedd ganddynt gyfanswm o 323,075 o etholwyr yn 2003 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Alyn and Deeside CC | 60,331 |
| Clwyd South CC | 53,860[1] |
| Clwyd West CC | 54,606 |
| Delyn CC | 54,277 |
| Vale of Clwyd CC | 49,111 |
| Wrexham CC | 50,890 |

[1] Mae hyn yn cynnwys 1,358 o etholwyr yn sir gadwedig Powys. Mae rhan o etholaeth bresennol De Clwyd yn disgyn o fewn ffin sir gadwedig Powys yn sgil newidiadau a wnaed i'r ffin honno gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Gweler paragraff 8, isod.

Mae nifer etholwyr 2003 o'r etholaethau presennol hyn yn amrywio o 8.4% islaw'r cyfartaledd sirol (Vale of Clwyd CC) i 12.5% uwchlaw'r cyfartaledd sirol (Alyn and Deeside CC). Y gwahaniaeth yw 11,220.

3. Ar ôl sefydlu'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru ym 1966, roedd ffiniau'r siroedd cadwedig yn dilyn ffiniau'r awdurdodau unedol, gyda dau brif eithriad. Roedd un yng Ngogledd Cymru lle'r oedd y ffin rhwng siroedd cadwedig Gwynedd a Chlwyd yn rhannu awdurdod unedol Conwy. Rhoddwyd sylw i'r anomaledd hwn gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn ei adolygiad o ffiniau'r siroedd cadwedig yn 2002. Argymhellodd bod y ffin rhwng siroedd cadwedig Gwynedd a Chlwyd yn cael ei hadlinio fel bod awdurdod unedol cyfan Conwy yn cael ei gynnwys o fewn sir gadwedig Clwyd. Derbyniodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr argymhelliad hwn a gweithredwyd y newid gan Orchymyn y Siroedd Cadwedig (Diwygio Ffiniau) (Cymru) 2003 a ddaeth i rym ar 2 Ebrill 2003.

4. Effaith y newid hwn i ffiniau siroedd cadwedig Gwynedd a Chlwyd yw bod rhannau sylweddol o Conwy CC ac Meirionnydd Nant Conwy CC wedi'u trosglwyddo o sir gadwedig Gwynedd i sir gadwedig Clwyd.

5. Cyfanswm yr etholwyr ar ddyddiad gwerthuso'r etholaethau hynny neu rannau o'r etholaethau hynny sy'n aros yn sir gadwedig Gwynedd ar ddyddiad yr adolygiad presennol yw 141,652 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Ynys Môn CC | 49,831 |
| Caernarfon CC | 47,065 |
| Conwy CC (rhan) | 18,004 |
| Meirionnydd Nant Conwy CC (rhan) | 26,752 |

O'i rannu â chwota etholiadol 2003, sef 55,640, mae hyn yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 2.55 sedd.

6. Cyfanswm etholwyr 2003 yr etholaethau hynny neu rannau o'r etholaethau sydd o fewn Clwyd ar ddyddiad yr adolygiad presennol yw 365,693 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Alyn and Deeside CC | 60,331 |
| Clwyd South CC | 53,860[2] |
| Clwyd West CC | 54,606 |
| Delyn CC | 54,277 |
| Vale of Clwyd CC | 49,111 |
| Wrexham CC | 50,890 |
| Conwy CC (rhan) | 37,005 |
| Meirionnydd Nant Conwy CC (rhan) | 6,971 |

O'i rannu â chwota etholiadol 2003, sef 55,640, mae hyn yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 6.57 sedd.

7. Pe bai siroedd cadwedig Gwynedd a Chlwyd i'w hystyried ar y cyd, 507,345[3] fyddai cyfanswm yr etholwyr. O'i rannu â chwota etholwyr 2003, sef 55,640, mae hyn yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 9.12 sedd.

8. At hynny, ers yr adolygiad cyffredinol diwethaf, bu newid yn y ffin rhwng sir gadwedig Clwyd a sir gadwedig Powys. Roedd rhanbarth etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin yng Nghlwyd o'r blaen, ond fe'i trosglwyddwyd i Bowys gan Local Government (Wales) Act 1994. Mae'r rhanbarth etholiadol hwnnw yn cael ei gynnwys yn etholaeth bresennol De Clwyd, sydd, o ganlyniad, yn croesi'r ffin newydd. Nifer etholwyr 2003 y rhanbarth etholiadol hwnnw yw 1,358.

9. Yn ystod yr ymchwiliad lleol, tynnwyd fy sylw at amryw ddatganiadau a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn ei Adolygiad o Ffiniau Siroedd Cadwedig, Tachwedd 2003. Yn groes i sylw a wnaed yn yr ymchwiliad lleol, nid wyf

[2] Gweler nodyn 1, uchod.

[3] Gweler nodyn 1, uchod.

o'r farn bod y datganiadau hynny yn rhoi sicrwydd na fyddai'r newidiadau i'r siroedd cadwedig yn effeithio ar ffiniau etholaethau Seneddol. Rhaid darllen y datganiad ym mharagraff 6.18 "nid oes angen i'r newid arfaethedig [yn ffiniau siroedd cadwedig Gwynedd a Chlwyd] gael effaith ar etholaethau seneddol o reidrwydd" yng nghyd-destun paragraffau 6.7 – 6.10 a oedd yn esbonio arwyddocâd siroedd cadwedig dan Atodlen 2, Deddf Etholaethau Seneddol 1986, ac yn rhoi sylw i'r graddau y caniateir gwyro o Reol 4. Roedd yn dweud yn benodol (ym mharagraff 6.9) "Y Comisiwn Ffiniau i Gymru sydd i benderfynu ar yr ymagwedd a gymerant tuag at y mater hwn yn ystod yr adolygiad cyffredinol nesaf o etholaethau seneddol." Mae'n eglur i mi bod effaith y newidiadau hyn ymhlith y prif faterion i'w hystyried yn yr adolygiad presennol.

**Argymhellion dros dro y Comisiwn.**

10. O gofio'r newid ffin rhwng Gwynedd a Chlwyd, edrychodd y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru ("y Comisiwn") ar y posibilrwydd o ystyried Gwynedd a Chlwyd gyda'i gilydd at ddibenion yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad y gellid ymdrin â'r ddwy sir gadwedig yn foddhaol o edrych arnynt ar wahân, ac y byddai hyn yn cydsynio'n well â Rheol 4.

**(1) Gwynedd.**

11. Cynigia'r Comisiwn y dylid lleihau nifer yr etholaethau yng Ngwynedd o bedair i dair.

12. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cadw etholaeth bresennol Ynys Môn.

13. Mae'r Comisiwn yn cynnig creu'r ddwy sedd sy'n weddill drwy ddefnyddio ardaloedd Pwyllgor Ardal Cyngor Sir Gwynedd, sef Arfon, Dwyfor a Meirionnydd (yr hen ardaloedd Cyngor Dosbarth). Cynigir bod un etholaeth, i'w galw'n Arfon CC, yn cynnwys y rhanbarthau etholiadol sy'n llunio ardal Pwyllgor Ardal Arfon. Cynigir bod yr etholaeth arall, i'w galw'n Dwyfor Meirionnydd CC, yn cynnwys y

rhanbarthau etholiadol sy'n llunio ardaloedd Pwyllgor Ardal Dwyfor a Phwyllgor Ardal Meirionnydd.

14. Byddai nifer etholwyr 2003 yr etholaethau arfaethedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Ynys Môn CC | 49,831 |
| Arfon CC | 42,998 |
| Dwyfor Meirionnydd CC | 48,823 |

15. Cyfartaledd nifer etholwyr 2003 yn etholaethau Gwynedd fyddai 47,217. Byddai nifer etholwyr 2003 yr etholaethau arfaethedig yn amrywio o 8.94% islaw'r cyfartaledd sirol (Arfon CC) i 5.54% uwchlaw'r cyfartaledd sirol (Ynys Môn CC). Y gwahaniaeth fyddai 6,833.

16. Byddai'r etholaethau arfaethedig yn cynnwys y rhanbarthau etholiadol canlynol:

ARFON COUNTY CONSTITUENCY (42,998) Rhanbarthau etholiadol **Sir Gwynedd**: Arllechwedd, Bethel, Bontnewydd, Cadnant, Cwm-y-Glo, Deiniol, Deiniolen, Dewi, Garth, Gerlan, Glyder, Groeslon, Hendre, Hirael, Llanberis, Llanllyfni, Llanrug, Llanwnda, Marchog, Menai (Bangor), Menai (Caernarfon), Ogwen, Peblig (Caernarfon), Penisarwaun, Pentir, Penygroes, Seiont, Talysarn, Tregarth a Mynydd Llandygai, Waunfawr, Y Felinheli.

DWYFOR MEIRIONNYDD COUNTY CONSTITUENCY (48,823) Rhanbarthau etholiadol **Sir Gwynedd**: Aberdaron, Aberdyfi, Abererch, Abermaw, Abersoch, Bala, Botwnnog, Bowydd a Rhiw, Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd, Bryn-crug/Llanfihangel, Clynnog, Corris/Mawddwy, Criccieth, Diffwys a Maenofferen, Dolbenmaen, Gogledd Dolgellau, De Dolgellau, Dyffryn Ardudwy, Efail-newydd/Buan, Harlech, Llanaelhaearn, Llanbedr, Llanbedrog, Llandderfel, Llanengan, Llangelynin, Llanuwchllyn, Llanystumdwy, Morfa Nefyn, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Dwyrain Porthmadog, Gorllewin Porthmadog, Porthmadog-Tremadog, Gogledd Pwllheli, De Pwllheli, Teigl, Trawsfynydd, Tudweiliog, Tywyn.

YNYS MÔN COUNTY CONSTITUENCY (49,831) Rhanbarthau etholiadol **Sir Ynys Môn**: Aberffraw, Porth Amlwch, Amlwch Wledig, Biwmares, Bodffordd, Bodorgan, Braint, Bryngwran, Brynteg, Cadnant, Cefni, Cwm Cadnant, Cyngar, Gwyngyll, Tref Caergybi, Kingsland, Llanbadrig, Llanbedrgoch, Llanddyfnan, Llaneilian, Llanfaethlu, Llanfair-yn-Neubwll, Llanfihangel Ysgeifiog, Llangoed, Llanidan, Llannerch-y-medd, London Road, Maeshyfryd, Mechell, Moelfre, Morawelon, Parc a'r Mynydd, Pentraeth, Porthyfelin, Rhosneigr, Rhosyr, Trearddur, Tudur, Tysilio, Y Fali.

**(2) Clwyd.**

17. Cynigia'r Comisiwn y dylid cynyddu nifer yr etholaethau yng Nghlwyd o chwech i saith.

18. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cadw heb eu newid etholaethau Alyn and Deeside CC, Delyn CC ac Wrexham CC.

19. Bwriada'r Comisiwn wneud mân newidiadau i Clwyd South CC, Clwyd West CC ac Vale of Clwyd CC i ystyried y newidiadau i ffiniau rhanbarthau etholiadol yn dilyn adolygiad gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Ar hyn o bryd mae pedwar o'r rhanbarthau etholiadol newydd - Efenechtyd, Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla, Llandyrnog a Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern – yn rhannol mewn un etholaeth ac yn rhannol mewn un arall. Mae'r Comisiwn yn bwriadu adlinio ffiniau'r etholaethau i gyd-fynd â ffiniau'r rhanbarthau etholiadol rhanedig hyn. Cynigia y dylai rhanbarthau etholiadol Efenechtyd, Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla a Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern fod yn Clwyd West CC, ac y dylai rhanbarth etholiadol Llandyrnog fod yn Vale of Clwyd CC.

20. Mae'r Comisiwn yn cynnig y dylid symud rhanbarth etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin o etholaeth De Clwyd a'i gynnwys mewn etholaeth ym Mhowys.

21. Mae'r Comisiwn yn cynnig y dylid cyfuno'r rhannau hynny o etholaethau presennol Conwy a Meirionnydd Nant Conwy a oedd o fewn sir gadwedig Gwynedd yn flaenorol ond sydd bellach o fewn sir gadwedig Clwyd, mewn un etholaeth newydd unigol a bod enw Conwy CC yn cael ei gadw ar gyfer yr etholaeth newydd hon.

22. Byddai nifer etholwyr 2003 yr etholaethau arfaethedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Alyn and Deeside CC | 60,331 |
| Clwyd South CC | 51,201 |
| Clwyd West CC | 55,381 |
| Conwy CC | 43,976 |
| Delyn CC | 54,277 |
| Vale of Clwyd CC | 49,637 |
| Wrexham CC | 50,890 |

23. Cyfartaledd nifer etholwyr 2003 yn etholaethau Clwyd fyddai 52,242. Byddai nifer etholwyr 2003 yn yr etholaethau arfaethedig yn amrywio o 15.82% islaw'r cyfartaledd sirol (Conwy CC) i 15.48% uwchlaw'r cyfartaledd sirol (Alyn and Deeside CC). Y gwahaniaeth fyddai 16,355.

24. Byddai cyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig fel a ganlyn:

    ALYN AND DEESIDE COUNTY CONSTITUENCY (60,331) Rhanbarthau etholiadol **Sir y Fflint**: Aston, Gogledd Ddwyrain Brychdwn, De Brychdwn, Dwyrain Bistre Bwcle, Gorllewin Bistre Bwcle, Mynydd Bwcle, Pentrobin Bwcle, Caergwrle, Canol Cei Conna, Cei Conna Golftyn, De Cei Conna, Cei Conna Gwepre, Ewlo, Penarlâg, Kinnerton Uchaf, Yr Hob, Llanfynydd, Mancot, Pen-y-ffordd, Queensferry, Saltney Cyffordd yr Wyddgrug, Saltney Stonebridge, Sealand, Dwyrain Shotton, Shotton Uchaf, Gorllewin Shotton, Treuddyn.

    CLWYD SOUTH COUNTY CONSTITUENCY (51,201) Rhanbarthau etholiadol **Sir Ddinbych**: Corwen, Llandrillo, Llangollen, Rhanbarthau etholiadol **Sir**

**Wrecsam**: Bronington, Brymbo, Bryn Cefn, Cefn, Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley, Gogledd y Waun, De'r Waun, Coedpoeth, Esclusham, Gwenfro, Johnstown, Llangollen Wledig, Marchwiail, Mwynglawdd, Brychdwn Newydd, Owrtyn, Pant, Pen-y-cae, Pen-y-cae a De Rhiwabon, Plas Madoc, Ponciau, Ruabon.

CLWYD WEST COUNTY CONSTITUENCY (55,381) Rhanbarthau etholiadol **Sir Conwy**: Abergele Pensarn, Betws yn Rhos, Colwyn, Eirias, Gele, Glyn, Bae Cinmel, Llanddulas, Llandrillo yn Rhos, Llangernyw, Llansannan, Llysfaen, Mochdre, Pentre Mawr, Rhiw, Towyn, Uwchaled, Rhanbarthau etholiadol **Sir Ddinbych**: Efenechdyd, Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla, Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal, Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern, Llanrhaedr-yng-Nghinmeirch, Rhuthun.

CONWY COUNTY CONSTITUENCY (43,976) Rhanbarthau etholiadol **Sir Conwy**: Betws-y-Coed, Bryn, Caerhun, Capel Ulo, Conwy, Craig-y-Don, Crwst, Deganwy, Eglwysbach, Gogarth, Gower, Llansanffraid, Marl, Mostyn, Pandy, Pant-yr-afon/Penmaenan, Penrhyn, Pensarn, Trefriw, Tudno, Uwch Conwy

DELYN COUNTY CONSTITUENCY (54,277) Rhanbarthau etholiadol **Sir y Fflint**: Argoed, Dwyrain Bagillt, Gorllewin Bagillt, Brynffordd, Caerwys, Cilcain, Ffynnongroyw, Castell y Fflint, Coleshill y Fflint, Oakenholt y Fflint, Trelawney y Fflint, Maesglas, Gronant, Gwernaffield, Gwernymynydd, Helygan, Canol Treffynnon, Dwwyrain Treffynnon, Gorllewin Treffynnon, Coed-llai, Broncoed yr Wyddgrug, Dwyrain yr Wyddgrug, De yr Wyddgrug, Gorllewin yr Wyddgrug, Mostyn, New Brighton, Llaneurgain, Pentre Catheral, Trelawnyd a Gwaenysgor, Chwitffordd.

VALE OF CLWYD COUNTY CONSTITUENCY (49,637) Rhanbarthau etholiadol **Sir Ddinbych**: Bodelwyddan, Canol Dinbych, Dinbych Isaf, Dinbych Uchaf/Henllan, Diserth, Llandyrnog, Canol Prestatyn, Dwyrain Prestatyn, Prestatyn Allt Melyd, Gogledd Prestatyn, De Orllewin Prestatyn, Rhuddlan,

Dwyrain y Rhyl, De y Rhyl, De Ddwyrain y Rhyl, De Orllewin y Rhyl, Gorllewin y Rhyl, Dwyrain Llanelwy, Gorllewin Llanelwy, Trefnant, Tremeirchion.

WREXHAM COUNTY CONSTITUENCY (50,890) Rhanbarthau etholiadol **Sir Wrecsam**: Acton, Parc Boras, Brynyffynnon, Cartrefle, Erddig, Garden Village, Dwyrain a Gorllewin Gresffordd, Grosvenor, Dwyrain a De Gwersyllt, Gogledd Gwersyllt, Gorllewin Gwersyllt, Hermitage, Holt, Little Acton, Llai, Maesydre, Marford a Hoseley, Offa, Queensway, Rhosnesni, Yr Orsedd, Smithfield, Stansty, Whitegate, Wynnstay.

**Cynrychiolaethau a wnaed i'r Comisiwn ac i'r Ymchwiliad Lleol ar y Cyd.**

25. Derbyniodd y Comisiwn ohebiaeth sylweddol yn cynnig sylwadau ar ei argymhellion dros dro ar gyfer Gwynedd a Chlwyd. Yng ngolau'r sylwadau hyn, roedd yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal ymchwiliadau lleol i'r newidiadau arfaethedig yn siroedd cadwedig Gwynedd a Chlwyd. Fel arfer byddai'n briodol cynnal ymchwiliad lleol mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer sir gadwedig unigol. Fodd bynnag, o ystyried nifer y gwrthwynebiadau a gafwyd mewn perthynas â'r cynigion yn ymwneud ag etholaethau presennol Gwynedd sy'n gofyn bod y trefniadau presennol ar gyfer yr ardal yn cael eu cadw, er gwaetha'r ffaith fod dwy etholaeth bresennol yn rhannol yng Ngwynedd ac yn rhannol yng Nghlwyd, penderfynodd y Comisiwn gynnal ymchwiliad lleol ar y cyd i'w gynigion ar gyfer Gwynedd a Chlwyd.

26. Cynhaliwyd yr ymchwiliad lleol ym Mangor ar 6 Gorffennaf 2004 ac yn Rhuthun ar 8 Gorffennaf 2004. Clywais sylwadau a thystiolaeth lafar gan y canlynol:

Mr. Hywel Williams, yr Aelod Seneddol dros Gaernarfon.
Mr. Iwan Evans, (ar ran Cyngor Sir Gwynedd).
Mr. Gwyn Hughes, (ar ran Cyngor Dinas Bangor).
Mrs. Phyllis Ellis, (ar ran Cyngor Cymuned Llanddeiniolen).
Mr. Paul Williams (ar ran Plaid Lafur Bangor).
Y Cynghorydd Charles Ellis LL.B.
Mr. Dafydd Wigley.

Mr. Roger Pratt CBE, Mr. David Ian Jones, Mr. Guto Bebb, Mr. J.V.R. Anderson. OBE, DL, Mrs. Mair Reeves a Mrs. Anne Roberts (yn amrywiol ar ran Plaid Geidwadol Cymru, Ceidwadwyr Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru a Chymdeithasau Ceidwadwyr Alyn a Glannau Dyfrdwy, Caernarfon, De Clwyd, Gorllewin Clwyd, Conwy, Delyn, Meirionnydd Nant Conwy, Dyffryn Clwyd, Wrecsam ac Ynys Môn.)

Mr. David Costa, (ar ran Plaid Lafur Cymru).

Ms. Donna Hutton, (ar ran Plaid Lafur Etholaeth Conwy).

Mr. David Taylor, (ar ran Plaid Lafur Etholaeth Gorllewin Clwyd).

Y Cynghorydd Lloyd Davies, (ar ran Cyngor Sir Ddinbych).

Mr. Ian Miller, (ar ran Cyngor Sir Ddinbych).

Cefais lythyr hefyd gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Roberts o Gonwy.

27. Mae'n gyfleus i ystyried yn ei dro yr ymateb i'r argymhellion dros dro ar gyfer Gwynedd a Chlwyd.

**(1) <u>Gwynedd.</u>**

28. Cafodd argymhellion dros dro y Comisiwn mewn perthynas â Gwynedd gefnogaeth gan Blaid Geidwadol Cymru, Plaid Lafur Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Plaid Lafur Etholaeth Caernarfon a Cheidwadwyr Conwy. Hefyd, cafodd y Comisiwn lythyrau yn cefnogi ei argymhellion dros dro gan ar gyfer y Cynghorydd H. Eifon Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) a thri unigolyn. Mae Plaid Cymru yn gefnogol yn gyffredinol i'r argymhellion mewn perthynas â Gwynedd, ond mae'n pennu amod mewn perthynas â'r ffin rhwng Arfon CC newydd ac Dwyfor Meirionnydd CC newydd, gan gynnig y sylw bod angen sicrhau bod y ffin yn adlewyrchu cysylltiadau cymunedol yn ffyddlon. Noda y bydd ei swyddogion lleol yn ysgrifennu at y Comisiwn i ddelio â'r mater hwn yn fwy penodol.

29. Nid oedd Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn dymuno cynnig sylwadau nes ar ôl cyhoeddi adroddiad Comisiwn Richard. Hefyd, gwrthwynebodd Cyngor Gwynedd yr

argymhellion dros dro ar y sail y dylai unrhyw adolygiad o ffiniau Seneddol ddisgwyl am adroddiad Comisiwn Richard. Mae nifer o'r rheiny sy'n gwrthwynebu'r argymhellion dros dro wedi dweud hefyd y dylai unrhyw adolygiad beth bynnag ddisgwyl am ganlyniad Comisiwn Richard; mae'r rhain yn cynnwys pedwar Cyngor Cymuned, dwy gangen leol o Plaid Cymru, Mrs. Betty Williams AS a nifer o unigolion. Awgrymodd Plaid Cymru hefyd mai doeth o beth fyddai disgwyl am argymhellion Comisiwn Richard cyn dod i'r penderfyniad terfynol am newidiadau i ffiniau.

30. Gellir crynhoi'r prif wrthwynebiadau i argymhellion dros dro y Comisiwn fel a ganlyn.

    (1) Mae cryn wrthwynebiad i greu Etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd ar sail maint yr etholaeth, anawsterau o ran teithio a chyfathrebu, diffyg canolbwynt a gwahaniaethau mewn diddordebau ac agwedd rhwng pobl Dwyfor a Meirionnydd. Daw'r gwrthwynebiad hwn gan Gyngor Sir Gwynedd, Cyngor Tref Brenhinol Caernarfon, Cyngor Tref Criccieth, Cyngor Tref Porthmadog, Cyngor Tref Pwllheli, rhyw 13 o Gynghorau Cymuned[4], yn enwedig y rheiny yn Llŷn, Democratiaid Rhyddfrydol Caernarfon, dwy gangen leol o Plaid Cymru a nifer o unigolion.

    (2) Mae rhyw naw Cyngor Cymuned a Chyngor Tref Brenhinol Caernarfon, dwy gangen leol o Plaid Cymru a nifer sylweddol o unigolion yn gwrthwynebu y byddai'r cysylltiad naturiol rhwng Dwyfor a Chaernarfon yn cael ei dorri yn sgil creu etholaethau newydd Arfon CC, ac Dwyfor Meirionnydd CC. Dadleuant hefyd mai ychydig iawn o gysylltiad sydd rhwng Dwyfor a Meirionnydd. Tynnant sylw at y ffaith mai rhwng Llŷn, Dwyfor a Chaernarfon y mae'r cysylltiadau cludiant naturiol, a rhoddant bwys mawr ar y cysylltiad hanesyddol â Chaernarfon a fyddai'n cael ei dorri gan y cynigion.

[4] Aberdaron, Beddgelert, Bontnewydd, Buan, Dolbenmaen, Llanbedrog, Llanberis, Llanddeiniolen, Llandwrog, Llanengan, Llanllyfni, Llannor, Llanwnda

(3) Mae tri Chyngor Cymuned, dau gynghorydd o Fangor a nifer sylweddol o unigolion yn gwrthwynebu cynnwys Caernarfon a Bangor yn yr un etholaeth gan nad oes cysylltiad naturiol rhyngddynt. Cefnogwyd y gwrthwynebiad hwn gan ddeiseb ag arni 127 o lofnodion yn deillio o Fangor. Awgrymodd y Cynghorydd P.A. Williams o Fangor hefyd y byddai rhoi Caernarfon a Bangor yn yr un etholaeth yn niweidio'n sylweddol gobeithion Bangor am dwf economaidd.

(4) Mae tri Chyngor Cymuned wedi dadlau y byddai'r argymhellion dros dro yn arwain at anghydbwysedd rhwng gwlad a thref o fewn etholaeth arfaethedig Arfon. Yn benodol, mynegir pryder y byddai canolbwynt yr etholaeth yn symud o Gaernarfon i Fangor ac yn niweidio'r ardaloedd gwledig, ac y byddai natur yr etholaeth yn newid.

(5) Mae pump Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu ar y sail bod yr argymhellion dros dro yn dangos diffyg parch tuag at hanes a thraddodiadau'r ardal.

(6) Mae Mrs. Betty Williams, yr Aelod Seneddol dros Gonwy, yn gwrthwynebu'r cynigion ar sail y nifer isel o etholwyr yn yr etholaethau arfaethedig.

(7) Mae Mrs. Betty Williams, Yr Aelod Seneddol dros Gonwy, yn gwrthwynebu'r cynigion ymhellach ar y sail y byddent yn torri cysylltiadau o fewn Conwy CC bresennol ac o fewn Meirionnydd Nant Conwy CC bresennol.

(8) Cafwyd gwrthwynebiad pellach y byddai cynigion y Comisiwn yn gwanhau cynrychiolaeth diddordebau amaethyddol.

(9) Mae deg Cyngor Cymuned a Chyngor Dinas Bangor wedi gwrthwynebu'r argymhellion dros dro ar y sail nad oes rheswm da dros newid.

(10) Cynigiodd un unigolyn enw gwahanol i Etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd.

(11) Mae nifer o'r rheiny a wnaeth sylwadau i'r Comisiwn yn gwrthwynebu cynnwys Dwyfor a Meirionnydd yn Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru at ddibenion etholiadau'r Cynulliad. Hefyd, mae Plaid Cymru wedi mynegi pryder ynghylch maint rhanbarth arfaethedig Canolbarth a Gorllewin Cymru.

31. Gwnaethpwyd nifer o wrthgynigion gan gynnwys y canlynol:

(1) Mae nifer o unigolion wedi cynnig y dylai Bangor a'r rhannau hynny o Conwy CC bresennol sy'n aros yng Ngwynedd gael eu hymgorffori yn Caernarfon CC bresennol a ddylai gael ei chadw ar y ffurf addasedig hon.

(2) Mae nifer sylweddol o wrthwynebwyr, gan gynnwys deg Cyngor Cymuned, Cyngor Bangor, dau gynghorydd o Fangor a nifer sylweddol o unigolion wedi cynnig y dylid cadw pethau fel ag y maent. Cefnogir hyn gan ddeiseb ag arni 127 o enwau yn deillio o Fangor.

**(2) <u>Clwyd</u>**

32. Gellir crynhoi'r prif ymatebion i argymhellion dros dro y Comisiwn fel a ganlyn:

(1) Mae cefnogaeth eang i argymhellion dros dro y Comisiwn mewn perthynas â Chlwyd. Mae Plaid Geidwadol Cymru, Plaid Lafur Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Ceidwadwyr Conwy a Phlaid Lafur Etholaeth Gorllewin Clwyd yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Clwyd. Mynegodd Plaid Lafur Etholaeth Dyffryn Clwyd ei chefnogaeth i gynigion y Comisiwn ar gyfer Vale of Clwyd CC. Mae nifer o Aelodau Seneddol lleol ac Aelodau'r Cynulliad a grwpiau gwleidyddol mewn Cynghorau amrywiol wedi mynegi'u cymeradwyaeth i'r holl gynigion, neu rannau penodol o'r cynigion, ar gyfer Clwyd. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cefnogi'r argymhellion ar gyfer etholaethau seneddol yn ei ardal, yn amodol ar fater enwau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,

Cyngor Tref Llandudno, Cangen Aberconwy o'r Blaid Lafur a Phlaid Lafur Etholaeth Conwy yn cefnogi'r argymhellion, yn amodol ar fater enwau. At hynny, yn amodol ar fater enwau, mae ymatebion ysgrifenedig unigolion wedi dangos cefnogaeth yn gyffredinol i argymhellion dros dro y Comisiwn.

(2) Mae Plaid Geidwadol Cymru, Plaid Lafur Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Ceidwadwyr Conwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Tref Llandudno, Cangen Aberconwy o'r Blaid Lafur a Phlaid Lafur Etholaeth Conwy yn cefnogi'r argymhellion dros dro mewn perthynas ag Conwy CC newydd, yn amodol mewn rhai achosion ar fater ei henw. Cefnogir yr argymhellion dros dro hyn gan nifer o unigolion yn ogystal. Fodd bynnag, fe'u gwrthwynebwyd gan Mrs. Betty Williams AS, yr Aelod Seneddol dros Conwy CC.

(3) Mae Plaid Geidwadol Cymru a Cheidwadwyr Conwy, er eu bod yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Conwy CC, wedi awgrymu pe teimlid bod angen cynyddu nifer etholwyr Etholaeth Conwy, gellid cyflawni hyn trwy gynnwys rhanbarthau etholiadol Llangernyw ac Uwchaled yn Conwy CC yn hytrach nag yn Clwyd West CC. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnig hyn.

(4) Gwnaeth un gohebydd gynigion gwahanol yn cynnwys un Etholaeth yng Nghonwy ac un Etholaeth yn Sir Ddinbych, ac awgrymu y dylai Sir y Fflint a Wrecsam gael pedair etholaeth – Y Fflint, Yr Wyddgrug, Caergwrle a Wrecsam. Fodd bynnag, nid oedd rhagor o gefnogaeth i'r cynnig hwn.

(5) Mae'r cyfryw wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ysgrifenedig, gan fwyaf, yn ymwneud â'r enwau arfaethedig ar gyfer yr amrywiol etholaethau yng Nghlwyd.

**Comisiwn Richard.**

33. Dywedodd nifer o unigolion a chyrff a gyflwynodd cynrychiolaethau ysgrifenedig mewn ymateb i argymhellion dros dro y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru y byddai unrhyw ystyriaeth o ffiniau ar gyfer etholaethau a rhanbarthau Etholiadol Cynulliad Cymru yn gynamserol, a dylid aros am adroddiad Comisiwn Richard. Erbyn dyddiad yr ymchwiliad lleol roedd Comisiwn Richard wedi cwblhau ei waith ac wedi cyhoeddi'i adroddiad. Anogodd nifer o'r rheiny a wnaeth sylwadau llafar yn yr ymchwiliad lleol na ddylid gweithredu ymhellach mewn perthynas â'r adolygiad presennol nes gwybod pa newidiadau allai fod yng ngolau argymhellion Comisiwn Richard. Gwnaethpwyd y pwynt y gallai fod yn rhaid newid eto yn fuan newidiadau yn deillio o'r adolygiad presennol.

34. Mae'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru dan ddyletswydd statudol i gwblhau'r adolygiad presennol o fewn cyfnod penodedig. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â'r argymhellion hynny o Gomisiwn Richard a allai wrthdaro â deunydd pwnc yr adolygiad hwn. Ni all fod unrhyw sicrwydd ynghylch pa un a fydd ei argymhellion yn cael eu gweithredu, ac os felly, pa bryd. Yn yr amgylchiadau hyn, nid oes gan y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru unrhyw ddewis ond cwblhau ei adolygiad presennol.

**Dadansoddiad**

35. Am resymau a ddaw'n amlwg, rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â siroedd cadwedig Gwynedd a Chlwyd yn eu tro.

**(1) Gwynedd.**

**(a) Nifer yr etholaethau.**

36. Hawl ddamcaniaethol Gwynedd yw 2.55 sedd. Argymhelliad dros dro y Comisiwn yw y dylai Gwynedd gael tair sedd.

37. Daw'r unig wrthwynebiad i'r argymhelliad dros dro hwn gan y Comisiwn gan y rheiny sy'n ceisio cadw pethau fel ag y maent h.y. dyrannu pedair etholaeth i Wynedd, dwy ohonynt yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r sir gadwedig i gynnwys ardaloedd sylweddol o sir gadwedig Clwyd.

38. Daeth y lleihad sylweddol yn hawl ddamcaniaethol Gwynedd ers yr adolygiad cyffredinol diwethaf i raddau helaeth iawn yn sgil trosglwyddo rhannau sylweddol o etholaethau presennol Conwy CC ac Meirionnydd Nant Conwy CC i sir gadwedig Clwyd. Hefyd, bu gostyngiad cyson yn nifer yr etholwyr yn sir gadwedig Gwynedd yn ôl ei chyfansoddiad presennol, o 145,304 ym 1999 i 141,652 yn 2003, gostyngiad o 2.5%. Ar y sail na ddylid gwyro o Reol 4 o gwbl, mae'r Comisiwn yn amlwg yn gywir yn ei gasgliad y dylid lleihau nifer yr etholaethau yng Ngwynedd o bedair i dair. Mae cyfiawnhad llwyr dros ddyrannu tair sedd i Wynedd, er gwaetha'r hawl ddamcaniaethol i 2.55, pe bai angen cyfiawnhad pellach, yn ôl ei gymeriad daearyddol.

**(b) Ynys Môn.**

39. Cynigia'r Comisiwn bod etholaeth Ynys Môn CC bresennol yn cael ei gadael heb ei newid.

40. Ni fu unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig hwn.

41. Mae synnwyr da yr argymhellion yn amlwg. Mae Ynys Môn, â'i nifer o etholwyr yn 2003 yn 49,831 (5.54% uwchlaw'r cyfartaledd sirol) ac arwynebedd o 74,891 hectar, yn uned naturiol sy'n addas yn ôl nifer ei hetholwyr, ei maint a'i daearyddiaeth, i ffurfio etholaeth unigol. Mae'r fantais gan etholaeth Ynys Môn hefyd o fod yn gydffiniol â Chyngor Sir Ynys Môn.

**(c) Arfon a Dwyfor Meirionnydd.**

42. Yr agwedd fwyaf dadleuol ar argymhellion dros dro y Comisiwn mewn perthynas â Gwynedd a Chlwyd fu ei gynnig i rannu gweddill sir gadwedig Gwynedd yn ddwy

etholaeth i'w galw yn Arfon CC ac Dwyfor Meirionnydd CC. Arweiniodd hyn at ddau brif wrthgynnig:

(1) Ychwanegu Bangor a'r rhannau hynny o Conwy CC bresennol sy'n aros yng Ngwynedd i Caernarfon CC bresennol a ddylid ei chadw.

(2) Cadw pethau fel ag y maent.

43. Cafodd gwrthwynebiad i argymhellion dros dro y Comisiwn mewn perthynas ag Arfon a Dwyfor Meirionnydd ei gyfeirio'n bennaf at gynnwys Caernarfon a Bangor yn yr un etholaeth, torri cysylltiadau rhwng Dwyfor a Chaernarfon a natur etholaeth newydd arfaethedig Dwyfor Meirionnydd.

44. Mae nifer o bartïon â diddordeb wedi dadlau bod gwahaniaethau sylfaenol o ran cymeriad a diddordeb rhwng Bangor a Chaernarfon sy'n eu gwneud yn anaddas i'w cynnwys yn yr un etholaeth. Gwnaeth Cyngor Dinas Bangor sylw ysgrifenedig yn gwrthwynebu'r cynigion ar y sail bod y trefniadau presennol wedi gweithio'n dda i Ddinas Bangor yn y gorffennol, ac nad oedd unrhyw reswm diwrthdro dros eu newid. Yn yr ymchwiliad lleol, esboniodd Mr. Gwyn Hughes, Clerc y Dref, ar ran y Cyngor, bod aelodau'r Cyngor o'r farn bod cysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Bangor yn fwy gyda'r ardaloedd arfordirol trefol i'r dwyrain yn hytrach nag â Chaernarfon a'r ardaloedd gwledig i'r gorllewin. Cwynodd nad yw Cyngor Sir Gwynedd yn gwasanaethu Bangor yn dda, a'i fod yn colli allan i'r ardaloedd gwledig, ac y byddai buddiannau Bangor yn cael eu gwasanaethu'n well trwy gadw'r cysylltiad presennol â Chonwy. Dadleuodd y Cynghorydd P.A. Williams o Gyngor Dinas Bangor, y byddai rhoi Bangor a Chaernarfon yn yr un etholaeth yn niweidio'n sylweddol gobeithion Bangor am dwf economaidd. Tynnodd y Cynghorydd Charles Ellis LL.B., Cyngor Dinas Bangor, sylw at y gwahaniaethau rhwng Bangor a Gwynedd, a chyflwynodd ddeiseb ag arni 127 o lofnodion yn gwrthwynebu'r argymhellion dros dro. Mae nifer o bartïon â diddordeb o ardaloedd pellach i'r gorllewin wedi dadlau hefyd y byddai'n annymunol cynnwys Bangor a Chaernarfon yn yr un etholaeth. Felly, er enghraifft, cyfeiria Gyngor Cymuned Bontnewydd at wahaniaethau o ran cymeriad. Mae Cyngor Cymuned Llanwnda yn dadlau nad yw

Caernarfon a Bangor wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd, ac mai camgymeriad fyddai cysylltu'r ddau yn yr un etholaeth.

45. Ar y llaw arall, mae barn wahanol gan nifer o bartïon â diddordeb am berthynas Bangor a Chaernarfon. Yn benodol, tynnodd Mr. Guto Bebb, a ymddangosodd yn yr ymchwiliad lleol, sylw at y cysylltiadau amrywiol rhwng Bangor a'r ardal o'i gwmpas, a phwysigrwydd Bangor fel canolfan fusnes, addysgol, siopa ac adloniant, ac fel canolfan triniaeth feddygol. Awgrymodd rhai eraill yn yr ymchwiliad lleol fod yr honiadau ynghylch y gwahaniaethau rhwng Bangor a Chaernarfon yn cael eu gorliwio. Yn hyn o beth, dylid nodi hefyd bod nifer o unigolion a wnaeth sylwadau ysgrifenedig wedi cynnig y dylai Bangor a'r ardaloedd sydd yn Conwy CC ar hyn o bryd sydd o fewn sir gadwedig Gwynedd, gael eu hychwanegu at Caernarfon CC bresennol.

46. Yn ddiau mae gwahaniaethau o ran cymeriad ac agwedd rhwng Bangor a Chaernarfon. Fodd bynnag, rwyf o'r farn fod modd gorliwio'r gwahaniaethau hyn a bod gan y ddwy gymuned lawer mwy yn gyffredin nag y byddai rhai yn awgrymu. Yn yr un modd, rwy'n amau bod union debygrwydd o ran diddordeb ac agwedd rhwng Bangor a'r cymunedau trefol i'r dwyrain. At hynny, tra bod gan lawer o gymunedau gwledig yng Ngwynedd gysylltiadau hanesyddol â Chaernarfon, yn anochel edrychant at Fangor i ddarparu llawer o wasanaethau nad yw Caernarfon yn eu darparu. Yn benodol, mae Bangor yn darparu cyfleusterau busnes, siopa ac adloniant nad ydynt ar gael yn unrhyw le arall yng Ngwynedd. Mae cysylltiadau addysgol hefyd rhwng Bangor a'r cylch. Mae Bangor yn ganolbwynt naturiol. Yn fy marn i, mae'n gwbl briodol y dylai fod yn rhan o etholaeth arfaethedig Arfon.

47. Nid wyf o'r farn y byddai Bangor dan anfantais be bai'n cael ei gynnwys yn etholaeth arfaethedig Arfon. Bangor fyddai'r gymuned fwyaf yn yr etholaeth newydd. Byddai'r aelod etholedig dan rwymedigaeth i gynrychioli buddiannau'r holl etholwyr, ac ni allai anwybyddu buddiannau pobl Bangor o gwbl. Yn yr un modd, nid oes sail yn fy

marn i ar gyfer yr awgrym y byddai gobeithion Bangor am dwf economaidd yn y dyfodol yn cael eu niweidio yn sgil ei gynnwys yn etholaeth arfaethedig Arfon.

48. Mynegwyd ofn i'r gwrthwyneb yn llwyr mewn rhai rhannau. Felly y mae Cyngor Cymuned Llanllyfni, er enghraifft, wedi awgrymu y byddai canolbwynt yr etholaeth yn symud o Gaernarfon i Fangor, ac y byddai hyn yn niweidio'r ardaloedd gwledig. Er y byddai'r cynigion yn cynnwys Bangor fel canolfan drefol bwysig yn etholaeth Arfon, rwyf o'r farn y byddai etholaeth Arfon yn cadw agwedd wledig gref, ac nad oes unrhyw reswm i ofni y byddai cynrychiolaeth cymunedau gwledig yn llai effeithiol o gwbl o ganlyniad.

49. Byddai argymhellion dros dro y Comisiwn yn torri Dwyfor oddi wrth Arfon ac yn ei gysylltu â Meirionnydd yn etholaeth newydd Dwyfor Meirionnydd. Mae'r agwedd hon ar y cynigion wedi denu cryn wrthwynebiad yn lleol. Dylid nodi, fodd bynnag, bod y gwrthwynebiad i'r cynnig hwn wedi dod o Ddwyfor yn bennaf, ac i raddau llai o Arfon, ond nid o Feirionnydd.

50. Un agwedd ar y cynnig hwn, a gydnabuwyd gan y Comisiwn yn yr Adroddiad sy'n cynnwys ei argymhellion dros dro[5], yw y gall wanhau'r hen gysylltiadau rhwng tref Caernarfon a hen sir Gaernarfon. Yn sicr mae hwn yn fater y soniwyd amdano mewn llawer o sylwadau ysgrifenedig a dderbyniodd y Comisiwn ers hynny. Mae'r sylwadau ysgrifenedig hyn hefyd yn rhoi pwyslais penodol ar y cysylltiadau naturiol a'r cysylltiadau cludiant rhwng Dwyfor a Chaernarfon.

51. Agwedd arall ar y cynnig yw pa un a yw'n ddymunol i gysylltu Dwyfor a Meirionnydd yn y modd hwn, ac ymarferoldeb cynrychioli'r etholwyr yn effeithiol yn yr etholaeth newydd arfaethedig. Seilir y gwrthwynebiadau hyn ar faint yr etholaeth newydd arfaethedig ac anhawster teithio a chyfathrebu. Dadleuir nad oes unrhyw dref ganolog i ddarparu ffocws i'r etholaeth. Awgrymir y byddai creu'r etholaeth arfaethedig yn rhwystro gallu cynrychioli'r bobl yn effeithiol, ac y byddai'n cynyddu

[5] Paragraff 7.6.

difaterwch ymhlith yr etholwyr. Dadleuir hefyd nad oes gan bobl Dwyfor unrhyw gysylltiad gwirioneddol â phobl Meirionnydd.

52. Awgrymwyd bod maint, natur a siâp yr etholaeth arfaethedig yn ei gwneud yn uned anymarferol i'w chynrychioli'n effeithiol. Byddai gan etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd arwynebedd o 218,605 hectar. Byddai hyn yn fwy o ran arwynebedd nag Meirionnydd Nant Conwy CC bresennol (199,814 hectar) a byddai gryn dipyn yn fwy o ran arwynebedd nag unrhyw un o etholaethau arfaethedig Gwynedd neu etholaeth newydd arfaethedig Conwy.[6] Pe bai pob un o argymhellion dros dro y Comisiwn ar gyfer Cymru yn cael eu gweithredu, Dwyfor Meirionnydd CC fyddai'r ail etholaeth fwyaf yng Nghymru o ran arwynebedd, yn dilyn Brecon and Radnorshire CC (301,462 hectar) ac yn debyg yn fras i Montgomeryshire CC (218,154 hectar). Yn hyn o beth, mae'n bwysig nodi mai nifer etholwyr 2003 Dwyfor Meirionnydd CC fyddai 48,823, eto yn debyg yn fras i nifer etholwyr Montgomeryshire CC (46,655) ond gryn dipyn yn llai nag Brecon and Radnorshire CC (53,497). Byddai nifer etholwyr 2003 Dwyfor Meirionnydd CC 3.4% uwchlaw'r cyfartaledd sir gadwedig, ond gryn dipyn islaw cwota etholiadol 2003 (55,640). Yn yr amgylchiadau hyn, a chan ystyried yn benodol nifer yr etholwyr a'i berthynas â'r cwota etholiadol, nid wyf o'r farn y byddai maint Dwyfor Meirionnydd CC arfaethedig yn anghymesur neu o faint a fyddai'n rhwystro gallu cynrychioli'r etholwyr yn effeithiol.

53. Nid yw'r cysylltiadau cludiant yn Dwyfor Meirionnydd CC arfaethedig i weld fawr gwaeth i mi na'r rheiny mewn rhannau tebyg o Ogledd Cymru. Er bod ffyrdd yn Llŷn yn tueddu dod o gyfeiriad Caernarfon, mae gan Llŷn gysylltiadau ffyrdd effeithiol â Phorthmadog a Meirionnydd. Mae'r rheilffordd rhwng Pwllheli ac Aberdyfi yn ddull cludiant gwerthfawr hefyd o fewn yr etholaeth arfaethedig. Yn fy marn i, nid yw'r cysylltiadau cludiant o fewn yr etholaeth arfaethedig damaid gwaeth na'r rheiny yn

[6] Arfon CC 43,626 hectar
Dwyfor Meirionnydd CC 218,605 hectar
Ynys Môn CC 74,891 hectar
Conwy CC 62,263 hectar

Meirionnydd Nant Conwy CC bresennol. Fodd bynnag, ymddengys i mi efallai fod beirniadu'r cynnig ar sail cysylltiadau cludiant annigonol, i ryw raddau, yn seiliedig ar gamsyniad. Roedd nifer o'r rheiny a wnaeth sylwadau ysgrifenedig neu lafar o'r farn y byddai canolbwynt yr etholaeth newydd yn Nolgellau, a nodwyd yr anawsterau teithio yno o Lŷn. Er mai prin y gellir ystyried Dolgellau fel lle canolog yn yr etholaeth newydd, ymddengys yn annhebygol y byddai'n ganolbwynt iddi. Ymddengys yn llawer fwy tebygol mai Porthmadog fyddai'n cymryd y rôl honno, gan ei fod mewn lle canolog. Beth bynnag, gellid disgwyl i'r aelod etholedig gynnal cymorthfeydd cyson mewn rhannau gwahanol o'i etholaeth fel y mae'r aelod presennol dros Caernarfon CC yn cynnal cymorthfeydd ym Mhwllheli, Porthmadog a llawer o'r pentrefi, yn ogystal â Chaernarfon. Yn unol â hynny, nid wyf o'r farn bod y cyfleusterau cludiant presennol yn yr ardal yn debygol o rwystro gallu cynrychioli'r etholwyr yn effeithiol.

54. Byddai dwy ran weddol debyg o ran maint yn llunio etholwyr yr etholaeth arfaethedig, sef pobl Dwyfor (oddeutu 22,000) a Meirionnydd (oddeutu 26,000). Yn fy marn i, gellir yn hawdd gorliwio honiadau ynghylch y gwahaniaethau o ran agwedd a diddordebau pobl Dwyfor a Meirionnydd. Gan roi i'r naill ochr yr ymgiprys cyfeillgar rhwng y ddwy ardal, ymddengys i mi bod llawer mwy sy'n uno pobl Dwyfor a Meirionnydd nag sydd yn eu rhannu. Mae'r ddwy ardal yn ardaloedd gwledig yn bennaf gyda diddordebau amaethyddol cryf ac mae'r ddwy ardal yn mynd yn fwyfwy dibynnol ar dwristiaeth. Mae cysylltiadau diwylliannol cryf rhwng y ddwy ardal, yn enwedig y rheiny sy'n seiliedig ar y Gymraeg. Mae cysylltiadau addysgol hefyd rhwng yr ardaloedd, gan gynnwys Coleg Dwyfor Meirionnydd sy'n gweithredu ym Mhwllheli a Dolgellau. Yn fy marn i mae yma gymuned o ddiddordeb sy'n ei gwneud yn gwbl briodol iddynt fod o fewn yr un etholaeth.

55. Mae'n rhaid mai testun gofid yw y bydd y cynnig yn anochel yn gwanhau i ryw raddau y cysylltiadau hanesyddol rhwng Dwyfor a Chaernarfon. Fodd bynnag, nid

oes modd o gwbl cynnwys y cyfan o hen sir Gaernarfon o fewn un etholaeth unigol, ac felly mae rhywfaint o rannu yn anochel.

56. Yn fy marn i, nid oes unrhyw reswm i dybio y byddai'r gynrychiolaeth buddiannau amaethyddol yn cael ei gwanhau'n sylweddol o ganlyniad i gynigion y Comisiwn.

57. Mae gan argymhellion dros dro y Comisiwn mewn perthynas ag etholaethau arfaethedig Arfon a Dwyfor Meirionnydd y fantais o fod yn seiliedig ar yr hen ardaloedd cyngor dosbarth. Hefyd, byddai'r ddwy etholaeth yn disgyn yn gyfan gwbl o fewn yr un awdurdod lleol. Er y byddai gwahaniaeth rhwng niferoedd yr etholwyr yn y ddwy etholaeth (Arfon: 42,998 a Dwyfor Meirionnydd: 48,823) mae hyn yn dderbyniol. Byddai modd cydbwyso'r etholwyr trwy drosglwyddo rhai rhanbarthau etholiadol o Ddwyfor Meirionnydd i Arfon. Fodd bynnag, rwyf o'r farn mai'r cynnig presennol yw'r gorau am ei fod yn defnyddio unedau cyfarwydd.

58. Am y rhesymau hyn, rwyf o'r farn bod argymhellion dros dro y Comisiwn mewn perthynas ag Arfon a Dwyfor Meirionnydd yn ymarferol a'u bod yn debygol o lwyddo i gynrychioli'n effeithiol eu hetholwyr priodol.

59. Y prif wrthgynnig mewn perthynas ag Arfon a Dwyfor Meirionnydd nad yw'n golygu gwyro o Reol 4 yw y dylai Bangor a'r rhannau hynny o Conwy CC bresennol sy'n aros yng Ngwynedd gael eu hymgorffori yn Caernarfon CC bresennol a ddylai gael ei chadw ar y ffurf addasedig hon. Cynigiwyd hyn gan nifer o unigolion. Fodd bynnag, ni fu unrhyw gefnogaeth i'r cynnig hwn gan unrhyw un o'r cynghorau lleol na chan unrhyw un o'r pleidiau gwleidyddol neu ganghennau a wnaeth gynrychiolaethau.

60. Nid yw'r rheiny a wnaeth y cynnig hwn wedi rhoi sylw yn eu sylwadau ysgrifenedig i fater nifer yr etholwyr yn yr etholaeth arfaethedig nac effaith debygol y cynnig ar etholaethau eraill. Ar y sail y dylai'r etholaethau canlyniadol gydymffurfio â Rheol 4, ymddengys i mi y byddai'r cynnig yn arwain at gadw Ynys Môn CC bresennol a chadw Meirionnydd Nant Conwy CC heb y rhannau hynny sydd yng Nghlwyd ar hyn

o bryd. Nid oes yr un o'r rheiny sydd yn cefnogi'r cynnig hwn wedi gwrthwynebu cynnig y Comisiwn i greu etholaeth newydd, i'w galw'n Conwy CC, yn cynnwys y rhannau hynny o Conwy CC bresennol ac Meirionnydd Nant Conwy CC sydd yng Nghlwyd ar hyn o bryd.

61. Ar y sail hwn, byddai nifer etholwyr 2003 yr etholaethau canlyniadol, a gyfrifir trwy gyfeirio at etholwyr yr etholaethau presennol, fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Ynys Môn CC | | 49,831 |
| Caernarfon CC | 47,065 | |
| Conwy CC (rhan) | 18,004 | |
| | 65,069 | 65,069 |
| Conwy CC (rhan) | 37,005 | |
| Meirionnydd Nant Conwy CC (rhan) | 6,971 | |
| | 43,976 | 43,976 |
| Meirionnydd Nant Conwy CC (rhan) | | 26,752 |

Y gwahaniaeth rhwng y seddi hyn a'r seddi yn sir gadwedig Gwynedd fyddai 38,371.

Bydd nifer etholwyr 2003 yr etholaethau arfaethedig yn sir gadwedig Gwynedd yn amrywio o 43.34% islaw'r cyfartaledd sirol (etholaeth newydd Meirionnydd) i 37.81% uwchlaw'r cyfartaledd (etholaeth newydd Caernarfon).

62. Yn fy marn i byddai'r gwahaniaeth hwn yn gwbl annerbyniol. Byddai nifer etholwyr 2003 yn etholaeth newydd Caernarfon gryn dipyn yn fwy na'r nifer yn etholaeth fwyaf bresennol Gogledd Cymru (Alyn and Deeside CC: 60,331) a chryn dipyn yn uwch na'r cwota etholiadol (55,640). Byddai nifer etholwyr 2003 yn etholaeth newydd Meirionnydd gryn dipyn yn llai na'r etholaeth leiaf bresennol yng Ngogledd Cymru (Meirionnydd Nant Conwy CC: 33,723) ac yn llai na hanner y cwota etholiadol (55,640).

63. Byddai unrhyw ymgais i ail-lunio'r ffin rhwng etholaeth newydd Caernarfon ac etholaeth newydd Meirionnydd er mwyn cydbwyso'u niferoedd etholwyr yn debygol o fod yn debyg iawn i argymhellion dros dro presennol y Comisiwn ar gyfer Arfon CC arfaethedig ac Dwyfor Meirionnydd CC arfaethedig . Mae'r cynigion hynny yn defnyddio ardaloedd Pwyllgor Ardal Cyngor Sir Gwynedd, sef Arfon, Dwyfor a Meirionnydd (yr hen ardaloedd Cyngor Dosbarth). Ni ddaeth unrhyw sail arall ar gyfer cydbwyso nifer etholwyr etholaethau newydd arfaethedig Caernarfon a Meirionnydd, sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd, i'r meddwl ar unwaith. Yn sicr ni chynigiwyd un.

64. Byddai'r gwrthgynnig arall, sef cadw pethau fel ag y maent, yn golygu gwyro oddi wrth Reol 4 mewn perthynas ag Conwy CC ac Meirionnydd Nant Conwy CC. Er bod y Rheolau a nodir yn yr Atodlen i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 yn cynnwys mesur o hyblygrwydd, mae'n glir bod y Senedd wedi rhoi cryn bwys ar ddymunoldeb cyfyngu etholaeth i sir unigol. Mae argymhellion dros dro y Comisiwn yn dangos ei bod yn ymarferol dyrannu tair etholaeth i Wynedd nad ydynt yn croesi y tu hwnt i ffiniau'r sir gadwedig. Byddai'r gwahaniaeth hwn o fewn Gwynedd dan gynigion y Comisiwn (6,833) gryn dipyn yn llai nag o dan y trefniadau presennol (21,286). (Gweler paragraffau 1 a 15 uchod.) Yn unol â hynny, ni allai Rheol 5 gyfiawnhau gwyro o gydymffurfio'n gaeth â Rheol 4 er mwyn osgoi gormod o wahaniaeth. Mae Rheol 6 yn caniatáu gwyro o gydymffurfio'n gaeth â Rheol 4 os yw ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys maint, siâp a hygyrchedd etholaeth, yn ei gwneud hi'n ddymunol gwyro yng ngolwg y Comisiwn. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodwyd uchod, rwyf o'r farn na fyddai ystyriaethau daearyddol yn cyfiawnhau gwyro felly yn yr achos presennol. O ran yr anghyfleustra sy'n canlyn newidiadau i etholaethau a thorri cysylltiadau lleol, rwyf o'r farn nad oes defnydd yma fwy na thebyg i'r darpariaethau penodol yn Rheol 7(a) a (b) oherwydd bod y newidiadau yn cael eu gwneud at ddibenion Rheol 4. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn cadw disgresiwn cyffredinol dan Reol 7. Serch hynny, a beth bynnag, am y rhesymau a

nodir yn yr Adroddiad hwn, deuthum i'r casgliad na fyddai cyfiawnhad gan y Comisiwn dros wyro o Reol 4 yn achos siroedd cadwedig Gwynedd a Chlwyd.

**Enwau etholaethau.**

65. Derbyniodd y Comisiwn gynnig gan Mr. Liam Pennington bod yr etholaeth newydd yn Nwyfor a Meirionnydd yn cael ei galw'n Etholaeth Sirol Dwyfor Meirionnydd a Phen Llŷn. Ni fu unrhyw gefnogaeth arall i'r cynnig. Rwyf o'r farn mai cynnig y Comisiwn, sef galw'r etholaeth yn Dwyfor Meirionnydd CC sydd orau, gan ei bod yn cydbwyso dwy elfen yr etholaeth ac yn defnyddio enwau'r hen ardaloedd Cyngor Dosbarth.

66. Yn ei sylwadau i'r ymchwiliad lleol, dywedodd Mr. Dafydd Wigley y byddai cynigion y Comisiwn yn torri cysylltiad canrifoedd lawer rhwng Caernarfon ac enw'r etholaeth Seneddol. Fodd bynnag, ni chynigiodd gadw enw Caernarfon CC ar gyfer etholaeth arfaethedig Arfon. Er fy mod yn rhannu tristwch Mr. Wigley o dorri'r cysylltiad â'r gorffennol, rwyf o'r farn, o gofio'r gwahaniaethau sylweddol rhwng Caernarfon CC bresennol ac etholaeth arfaethedig Arfon, mai'r enw Arfon CC sydd orau gan ei fod yn adlewyrchu'n gywir yr ardal sy'n cynnwys yr etholaeth.

**Ystyriaethau pellach.**

67. Am y rhesymau a nodir uchod, rwy'n cytuno ag argymhelliad dros dro y Comisiwn mewn perthynas â sir gadwedig Gwynedd. Yn benodol, rwyf o'r farn na fyddai gan y Comisiwn gyfiawnhad dros wyro o Reol 4 yn achos sir gadwedig Gwynedd er mwyn caniatáu cadw pethau fel ag y maent. Fodd bynnag, cyn gadael cynigion y Comisiwn mewn perthynas â Gwynedd, dylwn gyfeirio at un mater arall.

68. O gofio'r gwrthwynebiad lleol sylweddol i argymhellion dros dro y Comisiwn ar gyfer Gwynedd, a'r gefnogaeth i gadw pethau fel ag y maent, dylwn esbonio fy marn, sef cyn y gallai'r Comisiwn argymell cadw pethau fel ag y maent, a oedd yn cynnwys dwy etholaeth a oedd yn rhannol yng Ngwynedd ac yn rhannol yng Nghlwyd, byddai

angen gwneud dadansoddiad o'r cynigion hynny yng nghyd-destun siroedd cadwedig cyfan Gwynedd a Chlwyd yn cael eu hystyried ar y cyd.

69. Mae gan Gwynedd a Chlwyd ddeg etholaeth ar hyn o bryd. Ar argymhellion dros dro y Comisiwn, byddai Gwynedd a Chlwyd yn cadw deg etholaeth (tair a saith yn y drefn honno, ar sail hawliau damcaniaethol i 2.55 a 6.57 yn y drefn honno). Beth bynnag, o ystyried siroedd cadwedig Gwynedd a Chlwyd ar y cyd, cyfanswm nifer etholwyr 2003 fyddai 507,345[7]. O rannu hyn â'r cwota etholiadol, sef 55,640, mae hyn yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 9.12 sedd.

70. Rwyf o'r farn y byddai'n anodd tu hwnt i'r Comisiwn gyfiawnhau dyrannu deg sedd i Wynedd a Chlwyd, o'u hystyried ynghyd, ar sail hawl ddamcaniaethol i 9.12.[8]

71. Nid oes yr un o'r rheiny a wnaeth sylwadau mewn ymateb i'r argymhellion dros dro wedi cynnig y dylid lleihau nifer yr etholaethau yng Ngwynedd a Chlwyd i naw, ac mae'n amlwg y byddai gwrthwynebiad cyffredinol i unrhyw gynnig felly.

72. Byddai lleihau nifer yr etholaethau yng Ngwynedd a Chlwyd o ddeg i naw yn gofyn am ad-drefnu etholaethau yn sylfaenol. Byddai hyn yn anochel yn achosi anghyfleustra cyffredinol ac yn ymyrryd ar gysylltiadau lleol. At hynny, pe bai nifer y seddi yn cael eu lleihau a bod cynnydd yn sgil hynny yng nghyfartaledd nifer yr etholwyr yn y ddwy sir sy'n cael eu cadw (56,372 yn hytrach na 50,735 dan y cynigion presennol) mae'n anodd gweld sut y gellid cyfiawnhau cadw pethau fel ag y maent ym mhob un o'r pedair etholaeth a arferai fod o fewn Gwynedd[9].

---

[7] Mae hyn yn cynnwys 1,358 o etholwyr yn sir gadwedig Powys. Gweler nodyn 1 uchod.

[8] Yn hyn o beth, yr hyn sydd gennyf dan sylw yw argymhellion dros dro y Comisiwn ar gyfer siroedd cadwedig Gwent a Morgannwg Ganol lle mae hawl ddamcaniaethol ar y cyd i 13.19 o seddi, ac mae'r Comisiwn wedi argymell dyrannu 13 o seddi. Yr hyn sydd gennyf dan sylw hefyd yw argymhellion dros dro y Comisiwn mewn perthynas â De Morgannwg sy'n golygu cadw'r pum etholaeth bresennol er gwaetha'r hawl ddamcaniaethol i 5.84 sedd, er yn yr achos hwnnw cafodd y Comisiwn ei ddylanwadu'n amlwg gan yr anghyfleustra a'r ymyrraeth ar gysylltiadau lleol y byddai'r ateb radical o ail-roi 6 sedd yn eu creu.

[9] Mae niferoedd etholwyr 2003 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Ynys Môn CC | 49,831 |

73. Hyd yn oed yn fwy sylfaenol fyth, yn fy marn i byddai lleihad felly yng nghyfanswm nifer yr etholaethau yn niweidio'n fawr y gallu i gynrychioli pobl Gwynedd a Chlwyd yn effeithiol, yn enwedig o gofio natur ddaearyddol yr ardal.

**(2) Clwyd.**

**(a) Nifer yr etholaethau.**

74. Roedd gan sir gadwedig Clwyd, yn ôl ei chyfansoddiad adeg yr adolygiad cyffredinol diwethaf, chwe etholaeth, gyda 323,075 o etholwyr yn 2003. At hynny, yn dilyn newidiadau i ffiniau llywodraeth leol, mae sir gadwedig Clwyd bellach yn cynnwys rhannau o ddwy etholaeth arall, gyda niferoedd etholwyr o 37,005 (Conwy CC (rhan)) a 6,971 (Meirionnydd Nant Conwy CC (rhan)), gan ddod â chyfanswm nifer etholwyr 2003 i 365,693. Hawl ddamcaniaethol Clwyd yw 6.57 sedd. Argymhelliad dros dro y Comisiwn yw mai saith o etholaethau ddylai fod yng Nghlwyd.

75. Daw'r unig wrthwynebiad o unrhyw sylwedd i'r argymhelliad dros dro hwn gan y Comisiwn o du'r rheiny sy'n ceisio cadw pethau fel ag y maent h.y. dyrannu pedair etholaeth i Wynedd, dwy ohonynt yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r sir gadwedig i gynnwys ardaloedd sylweddol o sir gadwedig Clwyd.
76. Ar y sail na ddylid gwyro o Reol 4, mae'r Comisiwn yn amlwg yn iawn yn ei gasgliad mai saith o etholaethau ddylai fod yng Nghlwyd.

**(b) Alyn and Deeside CC, Delyn CC, Wrexham CC.**

77. Cynigia'r Comisiwn nad oes unrhyw newid i ffiniau'r etholaethau hyn. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion hyn.

---

| | |
|---|---|
| Conwy CC | 55.009 |
| Caernarfon CC | 47,065 |
| Meirionnydd Nant Conwy CC | 33,723 |

**(c) Clwyd South CC, Clwyd West CC, Vale of Clwyd CC.**

78. Cynigia'r Comisiwn bod mân newidiadau yn cael eu gwneud i ffiniau'r etholaethau hyn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ranbarth etholiadol yn cael ei rannu rhwng etholaethau. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion hyn.

**(d) Clwyd South CC: rhanbarth etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant /Llansilin.**

79. Cynigia'r Comisiwn y dylid symud rhanbarth etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin o etholaeth De Clwyd a'i gynnwys mewn etholaeth ym Mhowys. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn a dim gwrthwynebiad.

**(e) Conwy a Nant Conwy.**

80. Argymhelliad dros dro y Comisiwn yw bod y rhannau hynny o Conwy CC bresennol ac Meirionnydd Nant Conwy CC bresennol sydd o fewn sir gadwedig Clwyd ar hyn o bryd, yn cael eu cyfuno i greu etholaeth newydd i'w galw yn Etholaeth Sirol Conwy.

81. Mae cefnogaeth gyffredinol i'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, fe'i gwrthwynebir gan Mrs. Betty Williams, yr Aelod Seneddol dros Conwy CC sy'n cefnogi cadw pethau fel ag y maent ar y sail y byddai nifer etholwyr annerbyniol o isel gan Arfon CC arfaethedig ac Conwy CC arfaethedig, ac y byddai cysylltiadau yn cael eu torri, o fewn y gadwyn cymunedau arfordirol o Gonwy i Fangor a rhwng Nant Conwy a Meirionnydd. Cyfeiriwyd uchod at y trigolion hynny ym Mangor sy'n dymuno cadw'r cysylltiad â Chonwy.

82. Yn fy marn i, byddai'r etholaeth arfaethedig yn llunio uned gydlynus. Byddai'n ailuno Dyffryn Conwy, sy'n cael ei rannu'n ddau dan y trefniadau presennol. Mae'r

nodwedd hon ar y cynnig wedi denu cefnogaeth arbennig. Byddai hefyd yn adlewyrchu cysylltiadau rhwng trefi arfordirol Conwy a Llandudno a Dyffryn Conwy. Mae'r cysylltiadau ffyrdd a rheilffordd ar ddwy ochr y dyffryn â Chonwy, Llandudno a Chyffordd Llandudno. Mae Dyffryn Conwy yn edrych tua'r gogledd at yr arfordir yn naturiol. Rwyf o'r farn bod y cysylltiadau rhwng Conwy a Dyffryn Conwy yn gryfach na'r cysylltiadau rhwng Conwy a Bangor. Mae'r ffaith y byddai ffiniau'r etholaeth arfaethedig yn gyfledol â'r rheiny o hen ardal Aberconwy yn fantais hefyd gan y'i cydnabyddir yn lleol. Yn fy marn i, mae'r ffactorau hyn yn amlwg yn gorbwyso torri cysylltiadau rhwng Conwy a chymunedau arfordirol eraill a chysylltiadau rhwng Nant Conwy a Meirionnydd.

83. Mae'n fantais hefyd y byddai'r etholaeth gyfan yn disgyn o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

84. Byddai nifer etholwyr Conwy CC newydd (43,976) yn gymharol fach ac 11,664 islaw'r cwota etholiadol. At hynny, y gwahaniaeth o fewn sir gadwedig Clwyd fyddai 16,355. Fodd bynnag, byddai nifer yr etholwyr yn debyg i'r nifer yn Arfon CC arfaethedig (42,998) ac Dwyfor Meirionnydd CC arfaethedig (48,823).

85. Argymhellodd Plaid Geidwadol Cymru, pe deimlid ei bod yn angenrheidiol, byddai modd cynyddu nifer etholwyr Conwy CC arfaethedig drwy ychwanegu rhanbarthau etholiadol Llangernyw ac Uwchaled, sydd yn Clwyd West CC ar hyn o bryd, gan hynny'n cynyddu nifer etholwyr Conwy CC i 46,239 ac yn lleihau nifer etholwyr Clwyd West CC i 53,118. Teg yw dweud nad cynnig ffurfiol oedd hwn, ond yn hytrach fe'i hawgrymwyd fel posibilrwydd pe bai'r Comisiwn yn teimlo bod angen lleihau'r gwahaniaeth. Codwyd y posibilrwydd yn yr un termau gan Geidwadwyr Conwy. Ni chafwyd cefnogaeth arall i weithredu felly. Fodd bynnag, gwrthwynebwyd gweithredu felly yn chwyrn yn yr ymchwiliad lleol gan Mr. David Taylor, ar ran Plaid Lafur Gorllewin Clwyd, ar y sail y byddai hyn yn torri cysylltiadau cryf Uwchaled gyda Rhuthun.

86. Nid wyf o'r farn y byddai ymarferiad cydbwyso felly yn angenrheidiol. Yn fy marn i, mae'r gwahaniaeth o fewn terfynau derbyniol, a byddai'n well cyfyngu'r etholaeth newydd i hen ardal Aberconwy fel y cynigia'r Comisiwn.

87. Yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â Chonwy a Nant Conwy a fyddai'n cyfiawnhau gwyro o Reol 4. I'r gwrthwyneb, rwyf o'r farn bod cynnig y Comisiwn ar gyfer Conwy CC newydd yn gwbl ymarferol ac yn ddymunol.

88. Fodd bynnag, mae cefnogaeth gref iawn i'r farn na ddylid galw'r etholaeth newydd yn Conwy CC. Cynigiodd Cyngor Tref Llandudno fod yr etholaeth newydd yn cael ei galw'n Aberconwy CC. Cafwyd yr un cynnig gan Gangen Aberconwy o'r Blaid Lafur, Plaid Lafur Etholaeth Conwy a dau aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cynghorydd P.C. Evans Y.H. a'r Cynghorydd B. Cossey, yr ail yn cynrychioli grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol).

89. Rwyf o'r farn bod enw Aberconwy CC yn well nag Conwy CC. Mae'r enw Conwy eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Cyngor Cymuned a Chyngor Bwrdeistref Sirol, ac nid yw'r naill na'r llall yn gyfledol â'r etholaeth arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r etholaeth arfaethedig yn union gyfledol â hen ardal Aberconwy. Mae'r enw hanesyddol Aberconwy yn gyfarwydd i aelodau'r cyhoedd, ac maent yn ei gysylltu ag ardal yr etholaeth arfaethedig. At hynny, byddai defnyddio'r enw Aberconwy mewn cysylltiad â'r etholaeth newydd yn gwahaniaethu rhwng Conwy CC bresennol a'r etholaeth newydd arfaethedig.

90. Yn unol â hynny, rwy'n argymell y dylid galw'r etholaeth newydd yn Aberconwy CC.

**(f) Enwau etholaethau yng Nghlwyd.**

91. Rhoddwyd sylw uchod i fater enwi etholaeth newydd Conwy.

92. Awgrymodd y Cynghorydd P.C. Evans Y.H., Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, nad yw'r enw Clwyd West CC yn briodol bellach yng ngolwg y ffaith, os yw cynigion y Comisiwn yn cael eu gweithredu, bydd etholaeth arall yn gyfan gwbl o fewn sir gadwedig Clwyd yn gorwedd i'r gorllewin o'r etholaeth honno. Yn unol â hynny, awgrymodd bod Clwyd West CC yn cael ei hail-enwi yn Etholaeth Sirol Canol Clwyd. Mae'r grŵp Democratiaid Rhyddfrydol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, er ei fod yn cefnogi newid yr enw am yr un rheswm, o'r farn nad yw Etholaeth Sirol Canol Clwyd yn ddigon eglur, ac awgryma Etholaeth Sirol Dwyrain Conwy/Gorllewin Sir Ddinbych fel dewis arall. Er fy mod yn cydnabod y rhesymeg y tu ôl i'r pwynt hwn, rwyf o'r farn bod ystyriaethau manwl gywirdeb yn cael eu gorbwyso gan fanteision parhad yn yr achos hwn. Mae'r unig newidiadau arfaethedig i ffiniau'r etholaeth yn rai bach iawn, ac yn yr amgylchiadau hyn byddai newid enw yn annymunol.

93. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwrthwynebu defnyddio enwau ar gyfer etholaethau, nad ydynt, y mae'n haeru, yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn unol â hynny, cynigia y dylid newid enwau y tair etholaeth yn ei ardal i'r canlynol: Etholaeth Sirol De Clwyd - Clwyd South, Etholaeth Sirol Gorllewin Clwyd - West Clwyd ac Etholaeth Sirol Dyffryn Clwyd - Vale of Clwyd. Er nad oes modd cael enwau Saesneg a Chymraeg gwahanol ar gyfer etholaeth, honna Cyngor Sir Ddinbych fod ei gynnig yn golygu defnyddio enw unigol dwyieithog ar gyfer pob etholaeth. Er ei bod yn gwbl briodol defnyddio'r Gymraeg mewn enwau etholaethau yng Nghymru, yn enwedig y rheiny mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf, ni allaf argymell y newidiadau a gynigir am y rhesymau canlynol. Yn gyntaf, mae'r enwau a gynigir yn feichus a byddent yn anghyfleus i'w defnyddio. Yn ail, mewn amgylchiadau, fel yma, lle gwneir mân newidiadau'n unig i ffiniau'r etholaethau dan sylw, mae ystyriaethau parhad yn awgrymu'n gryf y dylai'r enwau presennol gael eu cadw oni bai eu bod yn amhriodol. Yn drydydd, mae'r mater defnyddio'r Gymraeg mewn enwau etholaethau (ac, yn arbennig, defnyddio enwau dwyieithog unigol felly) yn fater a ddylai gael sylw cyffredinol gan y Comisiwn yn hytrach na bob yn dipyn.

## RHANBARTHAU ETHOLIADOL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU.

94. Mae Atodlen 1, Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn pennu gofyniad ar y Comisiwn i gynnal adolygiadau o ranbarthau'r Cynulliad ar yr un pryd ag adolygiadau cyffredinol o etholaethau Seneddol. Mae Atodlen 1 yn amodi mai etholaethau'r Cynulliad fydd yr etholaethau Seneddol yng Nghymru, ond amoda hefyd y bydd pum rhanbarth etholiadol y Cynulliad y dyrennir pedair sedd Cynulliad i bob un ohonynt. Yn unol â hynny, wrth wneud ei argymhellion ar gyfer etholaethau Seneddol mae'r Comisiwn hefyd yn gwneud ei argymhellion ar gyfer etholaethau'r Cynulliad. At hynny, pan fydd y Comisiwn yn argymell newidiadau yn unol â Deddf Etholaethau Seneddol 1986, mae'n ofynnol iddo hefyd ystyried pa un a yw unrhyw newid yn rhanbarthau etholiadol y Cynulliad neu newid yn y dyraniad seddi i ranbarthau etholiadol y Cynulliad yn ofynnol er mwyn rhoi grym i'r rheolau yn Atodlen 1, paragraff 8, Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

95. Mae Rheol 2, Atodlen 1, paragraff 8, Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn amodi bod rhaid i nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer rhanbarth etholiadol y Cynulliad fod mor agos i nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol arall y Cynulliad ag sy'n rhesymol ymarferol, gan roi sylw (lle bydd yn briodol) i ystyriaethau daearyddol arbennig.

96. Mae nifer etholwyr 2003 rhanbarthau presennol y Cynulliad fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 476,218 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 409,549 |
| De Orllewin Cymru | 398,546 |
| Canol De Cymru | 478,011 |
| De Ddwyrain Cymru | 470,878 |
| | |
| Cyfanswm yr Etholwyr | 2,233,202 |
| Cwota Etholiadol | 446,640 |

97. Dan y trefniadau presennol, mae Meirionnydd Nant Conwy CC yn llunio rhan o ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

98. Mae'r Comisiwn yn bwriadu ailddiffinio rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad, er mwyn cynnwys etholaethau arfaethedig Arfon a Chonwy yn rhanbarth Gogledd Cymru y Cynulliad, ac etholaethau arfaethedig Dwyfor Meirionnydd a Sir Drefaldwyn o fewn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad.

99. Mae'r cynigion hyn yn cael eu cefnogi gan Blaid Geidwadol Cymru, Plaid Lafur Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Fodd bynnag, mae cynnwys etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad yn cael ei wrthwynebu gan Blaid Cymru, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Cymuned Dolbenmaen, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, Cyngor Tref Pwllheli, Cangen Llannor o Blaid Cymru, cangen Pwllheli o Blaid Cymru, Mr. Hywel Williams, yr Aelod Seneddol dros Caernarfon CC, a nifer sylweddol o unigolion eraill. Er nad ydynt yn delio â'r mater yn ffurfiol, ymddengys y byddai Cynghorau Cymuned eraill yng Ngwynedd sy'n gwrthwynebu'n gryf creu etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd, am resymau tebyg, yn gwrthwynebu ei dyrannu i ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd.

100. Mae'r rhai sy'n gwrthwynebu'r cynnig yn awgrymu y dylid cynnwys etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd yn rhanbarth Gogledd Cymru. Dadleuant fod Dwyfor a Llŷn yn rhan o Ogledd Cymru i bob pwrpas, ac na ddylid eu cynnwys yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad. Cyfeiriant at ehangder daearyddol rhanbarth arfaethedig Canolbarth a Gorllewin Cymru. Nodant y byddai cynnwys Dwyfor Meirionnydd yn rhanbarth Gogledd Cymru â'r fantais bod rhanbarth Gogledd Cymru yn cyfateb i siroedd cadwedig Gwynedd a Chlwyd, a byddai ei ffiniau yn cydsynio â ffiniau gweinyddol eraill, er enghraifft, ffiniau Heddlu

Gogledd Cymru, Fforwm Economaidd Gogledd Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru.

101. Mae Dwyfor a Llŷn yn cael eu hystyried yn naturiol fel rhan o Ogledd Cymru, ac felly mae anhapusrwydd ynghylch eu cynnwys mewn rhanbarth sy'n dwyn yr enw rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwbl ddealladwy. At hynny, mae'n anffodus na fydd y rhanbarthau canlyniadol yn cydsynio â rhai ffiniau gweinyddol eraill. Er hynny, rwyf o'r farn bod gan Ddwyfor a Meirionnydd lawer yn gyffredin â rhannau eraill o ranbarth arfaethedig Canolbarth a Gorllewin Cymru. Byddai cryn dipyn o fuddiannau cyffredin o fewn y rhanbarth arfaethedig, yn enwedig o ystyried buddiannau pennaf yr ardal mewn amaethyddiaeth a thwristiaeth. Rwyf o'r farn bod y buddiannau cyffredin hyn o fewn y rhanbarth arfaethedig yn ei wneud yn uned briodol ar gyfer ei chyd-gynrychioli yn y Cynulliad, er gwaetha'r ffaith y byddai enw'r rhanbarth yn rhywfaint o gamenw. At hynny, rwyf o'r farn nad yw'r anomaledd ymddangosiadol o gynnwys Dwyfor a Llŷn yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ddim mwy na chynnwys Nant Conwy yn y rhanbarth hwnnw ar hyn o bryd.

102. Mae maint rhanbarth arfaethedig Canolbarth a Gorllewin Cymru yn amlwg yn ystyriaeth berthnasol. Fodd bynnag, rwyf o'r farn y caiff ei effaith ei lliniaru i ryw raddau gan y ffaith bod nifer yr etholwyr ychydig islaw'r cwota etholiadol. Dan gynigion y Comisiwn, byddai nifer yr etholwyr ar gyfer y rhanbarthau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 459,718 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 426,058 |
| Gorllewin De Cymru | 395,717 |
| Canol De Cymru | 480,831 |
| Dwyrain De Cymru | 470,878 |
| | |
| Cyfanswm Etholwyr | 2,233,202 |
| Cwota Etholiadol | 446,640 |

103. Pe bai etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd yn cael ei chynnwys yn rhanbarth Gogledd Cymru, byddai nifer etholwyr rhanbarth Gogledd Cymru a rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 508,671 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 377,105 |

Byddai rhanbarth Gogledd Cymru 13.89% uwchlaw'r cwota etholiadol, a byddai rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru 15.57% islaw'r cwota etholiadol. Rwyf o'r farn y byddai'r gwahaniaeth hwn yn annerbyniol. At hynny, nid wyf yn credu y gellid cyfiawnhau'r gwahaniaeth yn achos y rhanbarthau hyn ar sail ystyriaethau daearyddol arbennig.

104. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod y byddai cynnwys Dwyfor Meirionnydd CC yn rhanbarth Gogledd Cymru, cam y mae'n ei gefnogi, yn creu rhanbarth â nifer etholwyr sydd gryn dipyn yn uwch na'r nifer mewn rhanbarthau eraill. Yn unol â hynny, cynigia y dylid cydnabod hyn drwy ddyrannu pumed sedd i ranbarth Gogledd Cymru. Dadleua y gellid cyflawni hyn mewn un o ddwy ffordd.

(1) Os yw argymhellion terfynol y Comisiwn ar gyfer 41 neu 42 o etholaethau yng Nghymru, byddai 21 o seddi rhanbarthol. Yn yr amgylchiadau hyn, mae Cyngor Sir Ddinbych yn galw am ddyrannu sedd ychwanegol i ranbarth Gogledd Cymru.

(2) Os yw argymhellion terfynol y Comisiwn ar gyfer 40 o etholaethau, mae'n galw ar i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 gael ei newid i ganiatáu dyrannu 5 sedd i ranbarth Gogledd Cymru, ac i leihau o un dyraniad y rhanbarth â'r nifer isaf o etholwyr.

105. Pe bai'r adolygiad presennol yn arwain at gyfanswm o 41 neu 42 o etholaethau yng Nghymru, y Comisiwn yn wir fyddai'n gorfod dyrannu un sedd ychwanegol i un o'r rhanbarthau. Wrth wneud hynny, byddai'n ofynnol iddo gydymffurfio â'r Rheolau a nodir ym mharagraff 8, Atodlen 1, Deddf Llywodraeth Cymru 1988, ac â Rheol (4) yn benodol. Nid wyf yn gallu gwneud unrhyw argymhelliad ynghylch dyrannu'r sedd honno. Yn gyntaf, mae'r sefyllfa dan sylw yn un gwbl ddamcaniaethol. Ni allwn wybod beth fydd cyfanswm nifer yr etholaethau yng Nghymru yn dilyn yr adolygiad

presennol, na beth fydd yr amgylchiadau bryd hynny. Yn ail, pe bai'r sefyllfa yn codi, byddai'n ofynnol i'r Comisiwn, wrth ddod i'w benderfyniad, ystyried llawer o faterion, gan gynnwys y rheiny a nodir yn Rheol (4), na ellir eu rhagweld ac nad ydynt yn gyfyngedig i siroedd cadwedig Gwynedd a Chlwyd, ac sydd felly y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad lleol hwn.

106. Byddai sail arall cynnig Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae hwn yn fater sydd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad presennol, ac yn sicr y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad lleol hwn. At hynny, cyn y gallai'r Comisiwn lunio unrhyw farn ynghylch dymunoldeb unrhyw newid felly i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, byddai'n rhaid iddo roi sylw i lawer o ystyriaethau ehangach, gan gynnwys buddiannau etholwyr cyfan y Cynulliad.

107. Am y rhesymau a nodir uchod, rwy'n cefnogi argymhelliad y Comisiwn y dylid cynnwys Dwyfor Meirionnydd CC yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**CASGLIADAU.**

108. Am y rhesymau a nodir uchod:

(1) Rwy'n cefnogi argymhellion dros dro y Comisiwn mewn perthynas â sir gadwedig Gwynedd;

(2) Rwy'n cefnogi argymhellion dros dro y Comisiwn mewn perthynas â sir gadwedig Clwyd, ac eithrio fy mod yn argymell bod etholaeth newydd yn cael ei chreu o'r ddwy ran honno o Conwy CC ac Meirionnydd Nant Conwy CC sydd o fewn sir gadwedig Clwyd ar hyn o bryd, ac y dylid ei galw'n Aberconwy CC.

(3) Rwy'n cefnogi argymhellion dros dro y Comisiwn mewn perthynas â dyrannu etholaethau i ranbarth etholiadol Gogledd Cymru a rhanbarth etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

DLJ CF